

**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol De Eryri
a gynhaliwyd ar Ddydd Mawrth 25^{ain} Mehefin 2024 am 5.45 p.m
Yng Ngwesty Pengwern, Llan Ffestiniog**

Presennol – Aelodau: Mr Aled Thomas Mr Alun Edwards
Mr Hedd Pugh Mr Huw Roberts
Mrs Janette Holmes Mr Tim Faire
Mr David Coleman Mr Delwyn Evans
Mrs Gaynor Davies

Swyddogion / Sylwebyddion: Peter Rutherford (APCE) David P Jones (APCE)
Rhian P Williams (APCE) Gwyn Evans (CG)

Croesawodd HP bawb i'r cyfarfod heno.

1. Ymddiheuriadau Mr Alun Evans Mr Emllyn Roberts
Cyng. Eryl Jones Williams Mrs Lesley Amison
Mr J Pughe-Roberts Mr Geraint Rowlands
Mr Rhodri Prys Jones

Cyhoeddodd PR ei fod wedi ymweld â Mrs Swancott-Pugh yn ddiweddar a'i bod yn anfon ei chofion caredig at yr aelodau.

2. Datganiad o ddiddordeb

Dim

3. Cofnodion blaenorol

Cymeradwywyd

4. Materion yn Codi

- (i) Cynllun Ffermio Cynaliadwy – ymateb y Fforwm Mynediad i'w drafod fel eitem 11.
- ii) Lon Cwrt – Rhyd Yr Onnen Diweddariad ar y Ffordd Ddi-ddosbarth – eitem 8
Cwrt – Diweddariad Rhyd Yr Onnen ar fater Ffordd Annosbarthedig eitem 8.

5. Gohebiaeth

Dim

6. Diweddariad ar y Mesur Lles Anifeiliaid

Cyhoeddodd PR fod llywodraeth San Steffan yn anffodus wedi penderfynu 'tynnu'r plwg' ar y mesur Aelodau Preifat fel y'i gwerthuswyd gan Rob Taylor.

Nid oedd RT yn gallu bod yn bresennol ond roedd wedi cael ymateb e-bost - isod:

10^{fed} Mehefin – “Yn anffodus nid oes diweddariad bellach gan fod y Mesur Anifeiliaid a Gedwir wedi cael ei ddileu gan y Llywodraeth yn ddirybudd. Ceisiwyd Mesur Aelodau Preifat yn y Senedd a oedd wedi symud yn ei flaen i Dŷ'r Arglwyddi ond cafodd hwnnw hefyd ei ddileu oherwydd galw etholiad cyffredinol. Felly ymddiheuraf nad oes diweddariad ar y pwnc hwn bellach. Mae hyn yn rhwystredig iawn gan fod y mat yn dal i gael ei dynnu o dan fy nhraed, felly ni fydd diweddariad nes bydd y llywodraeth nesaf yn ei lle a'r llwch wedi setlo. Byddaf yn gadael i chi wybod os oes unrhyw symudiad ond gallai fod yn rhai misoedd neu flynyddoedd, ac efallai y byddaf wedi ymddeol erbyn hynny.”

Dywedodd PR ei fod yn siomedig oherwydd bod hwn yn ddarn pwysig o waith, gan fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn mynd i'r afael â mater cŵn yng nghefn gwlad a stoc.

Pe bai RT yn nodi rhywfaint o symudiad, yna byddai'n diweddarau'r aelodau yn unol â hynny.

Ychwanegodd HP ei fod yn gobeithio y byddai rhywbeth yn dod i'r amlwg ar ôl i'r Llywodraeth newydd ddod i rym.

Dywedodd AE fod yr Heddlu wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Lerpwl i allu adnabod DNA cŵn yr amheuir sydd wedi ymosod ar ddefaid. Gobeithio y gallai hyn wneud perchnogion cŵn yn fwy cyfrifol pe bai'n yn dod yn dull rheolaidd o adnabod anifeiliaid a oedd yn gyfrifol am ymosod ar stoc.

7. Diweddariad ar waith y Gwasanaeth Wardeniaid yn ne'r PC

Cyflwynodd David P Jones ei hun fel Prif Warden y Parciau Cenedlaethol ar gyfer ardal y de.

Ers ei gyflwyniad diwethaf, bu'n llawer prysurach mewn safleoedd fel Llyn Tegid, Dôl Idris a Thŷ Nant. Ond nid yw wedi bod mor brysur ag yr oedd yn syth ar ôl Covid. Nid yw'r tywydd eleni yn gyffredinol wedi bod yn waeth dros y tymor. Yn siomedig, roeddent wedi profi'r problemau gwrthgymdeithasol arferol megis gwersylla anghyfreithlon, sbwriel, difrod i goed, tanau, a gwersylla amhriodol ar lan llynnoedd.

Roedd y gorchymyn clirffordd ar gyfer Llangywer bellach wedi ei gwblhau gan Gyngor Gwynedd a gobeithio y byddai hyn yn helpu i atal pobl rhag parcio ar y ffordd, a gwneud bywyd yn haws i drigolion.

Gofynnodd HP ble felly y byddai pobl yn parcio gan fod angen man parcio arnynt.

Dywedodd DPJ eu bod nhw ynghyd â CG yn edrych ar botensial parcio arall. Roeddent hefyd yn bwriadu cyfarfod â Chyngor cymuned Llanygerw i archwilio pa botensial parcio ychwanegol oedd yn yr ardal. Roedd yn ymwybodol y byddai'r datblygiad rheilffordd yn y dref yn creu manau parcio ychwanegol a allai leddfu'r sefyllfa barcio ar y ffordd yn Llanygerw.

Gofynnodd HJ ai rheilffordd y llyn oedd hyn.

Crybwyllodd AT y byddai'r parcio rheilffordd yn y dref ac efallai y byddai'n gallu cynnwys rhai o'r ceir a arferai barcio ar hyd y ffordd yn Llanygerw.

Cadarnhaodd DPJ mai'r bwriad oedd cael yr holl leoedd parcio yn yr orsaf.

Soniodd DE efallai y byddai'r broblem faniau gweryslla yn parhau.

Gofynnodd PR i'r aelodau a hoffent gael diweddariad gan Iefarydd Rheilffordd Llyn Tegid - Julian Birley.

Soniodd DE eu bod yn cael diwrnod agored fis nesaf.

Cytunwyd bod PR yn gofyn iddynt ddiweddarau'r aelodau ar y datblygiad petaent yn gallu mynychu'r cyfarfod nesaf – 29 10 24.

Aeth DPJ ymlaen i ddweud fod y gwaith gosod llwybr ar Fynydd Moel yn parhau a bydd mwy o ddeunydd yn cael ei hedfan i mewn yn fuan er mwyn galluogi cwblhau rhan arall.

Yn Llanuwchllyn roeddent wedi tarmacio Llwybr Y Cei.

Gwnaed gwaith ychwanegol yng nghoetir Farchynys ac roedd y llwybr bellach wedi cael ei farcio. Roedd hwn hefyd yn safle Awyr Dywyll ac roedd sedd fetel newydd wedi'i gosod er mwyn i bobl allu gweld yr awyr.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo (gan y Gwasanaeth Wardeniaid) i adnewyddu'r llwybr anabledd yn Nôl Idris ac adnewyddu'r wyneb i ddod ag ef yn ôl i gyflwr da ar gyfer cadeiriau olwyn neu sgwteri symudedd. Roedd hwn yn un o lwybrau pob gallu a hyrwyddir gan y PC.

Roedd grisiau newydd wedi eu gosod yn Llanycil i'w gwneud yn fwy diogel a chyfleus i bysgotwyr ac ymwelwyr sy'n dymuno defnyddio Llyn Tegid.

Roeddent yn gweithio'n barhaus gyda Chyngor Gwynedd ac yn gyson yn gosod giataiau yn lle camfeydd lle bynnag y bo modd – a diolchodd i GLE a'i dîm am eu cymorth parhaus gyda hyn.

Roeddent wedi ail asesu Taith Ardudwy¹ ac roedd angen gwneud rhywfaint o waith mewn rhai mannau a hefyd ailosod rhai arwyddion. Efallai y bydd angen i'r PC roi proffil ychwanegol i'r llwybr hwn, ond prosiect a arweinir gan y gymuned fu erioed.

Ychwanegodd PR fod gan Daith Ardudwy wefan ei hun ac mae gan y Cyngorau Cymuned berchnogaeth o hyn, a'i fod yn llwybr poblogaidd.

Un o brif fanteision hyn oedd ei fod wedi'i ddylunio fel llwybr cynaliadwy. Gallai pobl gerdded cyn belled ag y dymument ar unrhyw ddiwrnod penodol ac yna mynd oddi arno mewn gwahanol fannau a dal y trên i ddychwelyd i'w man cychwyn, yn hytrach na defnyddio dau gar.

Ychwanegodd DJP eu bod wedi penodi Warden tymhorol ar gyfer de'r PC a Warden glan llyn tymhorol yn Llyn Tegid.

Gofynnodd HR a oedd y digwyddiad Red Bull yn digwydd o fewn y PC.

Dywedodd HP ei fod.

Ychwanegodd fod hwn yn ddigwyddiad sy'n cael ei drefnu'n dda ac sy'n dangos y PC ar ei orau. Mae'n denu cystadleuwyr ac ymwelwyr o bell ac agos ac mae'n hysbyseb dda i ardal Dinas Mawddwy yn arbennig, nad oedd fel arfer yn cynnal digwyddiadau mawr, yn wahanol i ogledd y PC.

Ychwanegodd HP y gallai Huw gystadlu'r flwyddyn nesaf!

Ychwanegodd AE ei fod hefyd yn ddiolchgar i'r PC a CG am eu gwaith ar newid peth o'r dodrefn ar yr Hawliau Tramwy. Roedd llawer o bobl wedi dweud ei bod yn llawer haws mynd drwy giatiau yn hytrach na chamfeydd. Roedd hyn yn dda i ddefnyddwyr yn y cymunedau lleol, ymwelwyr a hefyd i dirfeddianwyr.

Dywedodd GD fod arwydd wedi'i godi'n ddiweddar yn Llangelynnin, roedd hi'n meddwl gan y PC, a oedd yn pwyntio'r ffordd anghywir.

Dywedodd GLE mai cyfrifoldeb Adran Hawliau Tramwy CG oedd unrhyw farcwy'r ffordd ar ochr y ffordd. Byddai'n edrych i mewn i hyn.

8. Cwrt – Rhyd Yr Onnen — Diweddariad ar y Ffordd Ddi-ddosbarth (UCR).

Cyhoeddodd PR fod y Ffordd Ddi-ddosbarth hon wedi'i chau gan CG oherwydd ei chyflwr. Mae'r rhan ganol mewn cyflwr gwael iawn ar ochr y Cwrt.

¹ Roedd Taith Ardudwy (2010) yn fenter gan y Cyngor Cymuned arfordirol (rhwng Talsarnau ac Abermaw) i greu llwybr cerdded lefel ganolig cynaliadwy ar hyd yr arfordir. Mae hwn wedi'i rannu'n 3 hyd, a gall defnyddwyr gerdded un hyd a dychwelyd ar y trên i'w man cychwyn. Mae gan Taith Ardudwy wefan ei hun er gwybodaeth. Cynorthwyodd y PC gyda'i ddatblygiad a'i gynnal a'i gadw pan oedd angen.
[Taith Ardudwy](#)

Bu bwriad cludo deunydd mewn hofrennydd i'r ardal honno. Roedd costau'r hofrennydd am y dydd i'w ariannu gan GLASS (Cymdeithas Green Lane) gyda'r Parc Cenedlaethol yn goruchwylio'r gwaith. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl oherwydd amrywiol anawsterau. Roedd hyn yn siomedig ac mae GLASS bellach wedi rhoi rhybudd atgyweirio i Briffyrdd Gwynedd. Dyna pam fod y ffordd wedi ei chau dros dro.

Cadarnhaodd GLE fod hyn o dan Orchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) dros dro am 18 mis.

Byddai PR yn holi Priffyrdd Gwynedd i weld beth oedd eu cynlluniau ac yn adrodd yn ôl i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol.

Roedd wedi gweld rhai defnyddwyr 4x4 yn dal i ddefnyddio'r llwybr hwn ac yn anwybyddu'r cau er bod TRO yn ei le. Mae'r llwybr hefyd yn destun system unffordd wirfoddol gytunedig sy'n rhedeg o Ryd yr Onnen i'r Cwrt – h.y. o'r gorllewin i'r dwyrain. Roedd hyn er mwyn lleddfu tagfeydd ac i osgoi'r angen i grwpiau mawr fynd heibio'i gilydd ac achosi difrod sylweddol i'r tir.

Dangosodd rai sleidiau o ddefnyddwyr ar y trac sy'n destun Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO).

Mae'r ffordd yn dal i gael ei defnyddio gan feiciau modur i'r naill gyfeiriad a'r llall sy'n llai problemus.

Dywedodd AE ei bod yn anodd mewn amgylchiadau o'r fath i dirfeddianwyr gadw eu tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da.

Ychwanegodd HP pe bai tirfeddianwyr yn cael archwiliad tir yna byddent yn cael eu cosbi am ddiffyg cydymffurfio oherwydd y cyflwr, a byddai hynny oherwydd y defnyddwyr oddi-ar-y-ffordd ac arfer gwael.

Ychwanegodd PR ei bod yn rhwystredig iawn nad oedd hyn yn digwydd pan oedd yr holl drefniadau yn eu lle. Nid oedd ganddo ryddid i ddweud pam.

Gofynnodd GD pam na ellid gwneud hyn trwy glirio'r draeniau gyda pheiriant.

Atebodd PR fod hyn yn fwy na draen ochr - er bod llawer wedi'u rhwystro'n fwrriadol. Roedd hon yn ardal fawn, a bod angen tua 100t o gerrig i lenwi'r darn a ddifrodwyd.

Ychwanegodd GLE y byddai gwaith cynnal a chadw isel fel clirio draeniau wedi bod o gymorth mawr dros y blynyddoedd. Mae llawer o'r llwybrau hyn mewn manau lle mae'n anodd gwneud y gwaith cynnal a chadw mwyaf sylfaenol. Roedd y llwybr hwn mewn cyflwr gwael eisoes a byddai angen cryn dipyn o waith i'w godi i safon.

Mae sawl llwybr mewn cyflwr tebyg yn ne'r PC ac roedd adnoddau Priffyrdd eisoes yn denau ac nid oedd ffyrdd heb wyneb yn flaenoriaeth.

Ychwanegodd DPJ fod y defnyddwyr oddi-ar-y-ffordd yn mwynhau'r amodau hyn, ond ei fod yn broblematic i dirfeddianwyr a defnyddwyr eraill.

Ychwanegodd GD fod llawer o bobl yn ymweld â'r ardal yn benodol i'r diben hwn.

Byddai PR yn cysylltu â Phrifyrdd i weld beth oedd y sefyllfa bresennol ac yn adrodd yn ôl.

9. Diweddariad ar Strategaeth Hamdden Eryri – nawr wedi ei hailenwi'n Ddatganiadau Sefyllfa Hamdden - 2024-2029

Dywedodd PR wrth yr aelodau fod y ddogfen hon wedi'i chwblhau o'r diwedd ar ôl 2 flynedd o weithio arni, a'i bod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y PC.

Argymhellwyd newid yr enw gan ein hymgyngorydd adolygu, a wnaeth y golygiad terfynol.

Roedd yn bwysig bod y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r amcanion yn ymwneud â mynediad a hamdden yng Nghynllun Rheolaeth Eryri.

Roedd yn rhoi safbwynt y PC ar y gweithgareddau hamdden amrywiol a oedd yn digwydd o fewn ei ffiniau a'r heriau a geir yn sgil hynny. Roedd y ddogfen yn cynnwys 'datganiadau gweithgaredd' a oedd yn cwmpasu'r holl weithgareddau a gyflawnir yn gyffredin yn y PC. h.y. mynd â chŵn am dro, digwyddiadau (o bob math), beicio, dringo, cerdded, cerdded ceunentydd, pysgota, teithiau diwylliannol a hanesyddol. Rôl y PC oedd rhoi cyngor a dylanwadu er mwyn annog arfer gorau gyda chanlyniadau cynaliadwy.

Roedd enghreifftiau o reoli digwyddiadau cadarnhaol yn cynnwys rheoli sbwriel a gwastraff, goruchwylio, diogelwch, sŵn, dronau, rheoli digwyddiadau yn ystod y nos, parcio. Pwysleisiodd mai'r grwpiau bach oedd yn peri'r problemau mwyaf yn nhermau digwyddiadau *per se* gan nad oeddent yn aml yn cael eu rhedeg yn broffesiynol.

Roedd yna hefyd ran o fewn y ddogfen a oedd yn cyfeirio at yrru oddi ar y ffordd. Roedd yn bwysig bod y PC yn cydnabod bod gan rai llwybrau fel UCRs hawliau cyfreithiol a'u bod yn barod i weithio gyda grwpiau defnyddwyr i wneud llwybrau'n fwy cynaliadwy. Ond o ran gweithgareddau anghyfreithlon, byddent yn barod i weithredu'n unol â hynny gydag asiantaethau eraill i'w hatal.

Gofynnodd AE a oedd hyn yn golygu gweithio gyda Thimau Troseddau Gwledig HGC.

Atebodd PR ei fod, pan fo angen.

Soniodd HP fod dronau yn niwsans a bod hyn hefyd yn achosi rhai pryderon diogelwch iddynt.

Ychwanegodd GD ei bod wedi cael profiad diweddar o dronau yn hedfan dros eu hiard, sy'n dir preifat.

Soniodd PR fod cyngor dronau ar wefan y PC a bod gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar wefan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)².

Yn bwysig iawn, roedd y ddogfen hon yn cynnwys themâu pwysig fel athroniaeth Milltiroedd Heb Gamfeydd a'r Opsiynau Lleiaf Cyfyngol yr oedd y FfMLI yn gyfarwydd â nhw. Mae hyn yn gosod y safon ar gyfer y Parc Cenedlaethol wrth ystyried darpariaethau mynediad newydd neu well ac maent wedi'u mabwysiadu gan holl Barciau Cenedlaethol y DU.

Roedd gwybodaeth am faniau gwerysyla a chartrefi symudol hefyd wedi'u cynnwys yn y ddogfen fel yr argymhellwyd gan yr Awdurdod, a oedd hefyd yn nodi y byddent yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i hyrwyddo eu prosiect Aires/Arosfannau.³

Roedd copïau caled yn y ddwy iaith ar gael heno, ac roedd y ddogfen hefyd ar wefan y PC.

10. Diweddariad ar raglen waith Adain Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd.

Cyflwynodd GLE ei hun fel Arweinydd Tîm yr adain Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd.

Mae 3800km o Hawliau Tramwy (RoW) yng Ngwynedd ac mae llawer ohonynt yn hynod boblogaidd. Mae ardal Gwynedd hefyd yn cynnwys Arfon a Phen Llŷn sydd y tu allan i ffiniau'r PC.

Gofynnodd HJ a oedd y cyfeirbwyntiau yn safon genedlaethol.

Dywedodd GLE ei bod yn safon y cytunwyd arni'n genedlaethol, a oedd yn berthnasol i bob awdurdod lleol.

Roeddent hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r map cyfreithiol diffiniol, sef y map cyfreithiol ar gyfer yr holl Hawliau Tramwy yn yr ardal – ac yn gyffredin i bob awdurdod lleol â chyfrifoldebau Hawliau Tramwy. Roedd hyn yn dangos lleoliad yr HTC, ei statws a'i rif cymunedol. Roedd hon yn ddogfen bwysig a chaiff ei diweddarau pan wneir newidiadau cyfreithiol i unrhyw HTC. Gwneir hyn yn dilyn proses benodedig ar gyfer Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol (DMMOs) megis dargyfeiriadau, ychwanegiadau, dileu (anaml) neu uwchraddio.

Gall rhai newidiadau fod yn destun apêl ac mewn rhai o'r achosion mwy cynhennus, gallant arwain at Ymchwiliad Cyhoeddus os oes angen. Mae'n

² [Introduction to drone flying and the UK rules | Civil Aviation Authority \(caa.co.uk\)](https://www.caa.co.uk/Introduction-to-drone-flying-and-the-UK-rules)

³ Mae Cyngor Gwynedd yn datblygu 4 safle penodol i gartrefi modur aros dros nos.

bosibl bod rhywfaint o waith mapio HTC yn y gorffennol a allai fod yn anghywir, ond mae'r rhan fwyaf yn gywir.

Gofynnodd HJ os nad oedd llwybr wedi ei ddefnyddio ers blynyddoedd, onid oedd wedyn yn peidio â bod yn HTC oherwydd diffyg defnydd?

Pwysleisiodd GLE fod hon yn chwedl boblogaidd, ond ni ellir dileu na chau HTC ac eithrio trwy orchymyn cyfreithiol, hyd yn oed os nad yw llwybr wedi cael ei gerdded ers blynyddoedd lawer a'i fod yn ymddangos yn ddi-dddefnydd, mae'n dal i fod yn HTC yn gyfreithiol.

Dywedodd HP fod y Fforwm Mynediad Lleol wedi trafod y gweithdrefnau a'r costau cysylltiedig â gwneud newidiadau i HTC'au yn y gorffennol. Roedd y safbwyntiau hyn hefyd wedi'u mynegi yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Diwygio Mynediad (ARAG) cyn Covid. Roedd hynny er mwyn symleiddio'r prosesau a'i gwneud yn haws ac yn fwy cost effeithiol i awdurdodau lleol wneud newidiadau.

Ychwanegodd GLE fod cryn fomentwm cyn Covid i wneud newidiadau i'r gweithdrefnau HTC i'w gwneud yn haws a lleihau costau i awdurdodau lleol a'i fod yn siomedig nad oedd unrhyw beth wedi newid ar ôl y ddadl a'r argymhellion.

Roedd hefyd yn bwysig ystyried pe bai llinell ganiataol amgen yn cael ei darparu ar y ddaear fel dewis amgen i unrhyw HTC penodol, yna llinell wreiddiol yr HTC fyddai'n parhau i fod y llinell gyfreithiol.

Ychwanegodd HP pe bai llwybr caniataol arall yn cael ei ddarparu yna gallai perchnogion tir wynebu dwy linell yn y pen draw, ac nid dyna fyddai'r canlyniad gorau.

Ychwanegodd PR fod y Fforymau Mynediad Lleol, grŵp Swyddogion Hawliau Tramwy Cymru ac eraill i gyd wedi argymhell i LIC fod y newidiadau hyn yn angenrheidiol.

Dywedodd HP y gallai fod yn ddefnyddiol gofyn i LIC pan fydd ganddynt Weinidogion yn eu lle yn dilyn yr etholiad.

Parhaodd GLE - mae gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb am ddodrefn ond o fewn y PC, mae'r PC yn aml yn gweithio gyda CG i gynorthwyo llawer o dirfeddianwyr.

Eglurodd hefyd eu bod, mewn ffordd debyg i'r PC, yn ystyried yr 'opsiynau lleiaf cyfyngol' lle bynnag y bo modd - ond dylid cydbwysu hyn â thirwedd yr ardal a'r hyn sy'n bosibl, ond ei bod bob amser yn well newid camfeydd am giatiau neu giatiau mochyn i wneud y rhwydwaith yn fwy cyfleus i gynifer o ddefnyddwyr â phosibl. Roeddent hefyd yn annog tirlfeddianwyr i'w cadw mewn cyflwr da gan mai eu cyfrifoldeb nhw oedd sicrhau eu bod yn ddiogel.

Ychwanegodd PR fod ffiniau weithiau'n broblematig o ran sicrhau nad oedd stoc yn cymysgu, yn enwedig defaid, felly rhoddwyd sylw arbennig i'r mater hwn. Ychwanegodd ei bod yn bwysig ystyried bod y Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud y dylid ystyried mesurau ar gyfer mynediad lleiaf cyfyngol ond ei bod yn cydnabod y dylai hyn fod yn 'rhesymol ymarferol'.

Ychwanegodd GLE fod ganddynt hefyd nifer sylweddol o nodweddion hŷn o fewn y rhwydwaith HTC megis giatiau traddodiadol, camfeydd carreg neu risiau llechi ac y dylid eu cadw lle bynnag y bo modd.

Roedd ganddynt hefyd rywfaint o dir mynediad CRoW i'w fonitro y tu allan i ffin y PC, megis parseli ym Mhen Llŷn, Abermaw, Corris a Blaenau Ffestiniog.

Eglurodd fod llawer o Gyngorau Cymuned yn derbyn grant blynyddol gan CG tuag at gynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus sylfaenol yn eu hardal a bod hyn yn bwysig i CG. Hefyd, roedd rhai unigolion preifat yn cynnal rhywfaint o HTC ar eu tir.

O ran strwythurau eraill megis pontydd - roedd y rhain yn rhan o'u hisadeiledd ac roeddent yn gweithio gydag asiantaethau eraill pan fo problemau'n codi.

Ychwanegodd fod llawer o wybodaeth ar wefan CG os oedd pobl angen mwy o wybodaeth am Hawliau Tramwy penodol⁴.

Gofynnodd HP a oedd modd rhannu'r ddolen hon.

Byddai PR yn ychwanegu'r ddolen i'r cofnodion ac roedd hwn yn adnodd defnyddiol iawn yr oedd yn ei ddefnyddio'n aml.

Gwahoddoddd HP gwestiynau gan yr aelodau.

Gofynnodd AE a oedd mapiau'r Arolwg Ordnans (AO) yn gywir ac yn ddibynadwy i'r cyhoedd eu defnyddio.

Atebodd GLE fod yr holl Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gofnodwyd ar y Map Diffiniol yn cael eu hadlewyrchu ar yr Arolwg Ordnans yn gyffredinol. Pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud trwy'r broses ragnodedig gyfreithiol yna hysbysir yr AO a byddant yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'w mapiau.

Soniodd AE ei fod bob amser yn bryder y gallai rhai enwau lleoedd lleol gael eu newid i rai artiffisial.

Dywedodd GLE fod hon yn her a'i fod yn cael rhai ymholiadau o bryd i'w gilydd.

Ychwanegodd AE fod y Parc Cenedlaethol wedi gosod cynsail pwysig ar gyfer newid Snowdonia i Eryri.

⁴ Dolen i Fap Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd.
[Mapiau | Cyngor Gwynedd \(llyw. cymru\)](#)

Ychwanegodd PR fod hyn wedi'i gymhlethu gan y ffaith bod llawer o gylïau a llwybrau dringo wedi ennill enwau Saesneg amrywiol dros y blynyddoedd, wrth i ddringo ddod yn gamp awyr agored boblogaidd. Ond roedd yn sicr y gallent lywio'r mater hwn mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, roedd newid enwau lleoedd neu leoliadau yn ei farn ef yn amhriodol ac yn ansensitif. Er clod iddynt, roedd bob amser wedi gweld yr AO yn rhagweithiol iawn ynghylch y mater hwn, a'u bod yn defnyddio fersiynau Cymraeg llawer o fryniau, dyffrynnoedd a nodweddion eraill yn y mapiau AO hyn.

Dywedodd HJ ei bod yn bwysig bod unrhyw enwau sy'n hysbys yn lleol yn cael eu cofnodi o leiaf.

Ychwanegodd AE fod hwn yn ddarn pwysig o waith.

Cyfeiriodd HP at rai enghreifftiau o enwau lleol iawn yn ei leoliad ac roedd rhai afluniadau wedi digwydd.

Soniodd DPJ fod Naomi Jones yn y PC yn cynnal prosiect i gasglu a chofnodi'r enwau hyn yn ardal Traws.

Ychwanegodd GLE fod rhai llwybrau mewn rhai cymunedau ag enwau Cymraeg generig yn ogystal â'u ID arferol fel HTC a oedd yn ddiddorol ac roedd yn cytuno y dylid eu cofnodi.

Ychwanegodd GD fod llawer o enwau ond yn hysbys yn lleol, ac y dylid eu cofnodi mewn rhyw ffordd.

Soniodd DPJ fod hyn yn rhan o gylch gorchwyl y prosiect.

Ychwanegodd PR ei fod yn gwybod bod yna brosiect cenedlaethol a'i fod wedi cyfarfod â gwirfoddolwr lleol yng Nghaernarfon sydd hefyd yn casglu enwau caeau.

Diolchodd HP i GLE am ei amser a'i gyflwyniad diddorol.

11. Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Ymateb fforymau i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

Dywedodd PR wrth yr aelodau bod ymateb i'r papur wedi'i gyflwyno yn dilyn cyfarfod is-grŵp rhwng y ddau Fforwm Mynediad Lleol. Roedd yn bwysig nodi mai dim ond ar faterion yn ymwneud â mynediad, a dim pwnc arall, y gallai'r FfMLI ymateb.

Mynegodd siom nad oedd llawer yn y papur yn ymwneud â mynediad neu Hawliau Tramwy Cyhoeddus er bod y rhain yn ffactorau mor bwysig o ran rheoli tir.

Yn dilyn eu trafodaethau, roedd wedi llunio rhai pwyntiau bwled (gweler eitem papur 11) a oedd yn amlygu'r materion yr oeddent am eu cyflwyno i

Lywodraeth Cymru. Roedd hefyd yn ymwybodol bod rhai aelodau wedi ymateb i'r papur hwn fel unigolion preifat.

Roedd hefyd wedi bod yn anodd defnyddio'r holiadur gan mai dim ond ar-lein yr oedd hwn ar gael ac nid oedd maes penodol i fewnosod eu sylwadau ynddo, felly roedd y rhain wedi cael eu rhoi ar dudalen olaf y cwestiynau – sef 'unrhyw sylwadau neu arsylwadau eraill'.

Aeth drwy'r rhestr o bwyntiau bwled gan obeithio y byddai rhai syniadau sylfaenol o leiaf yn cael eu hystyried gan LIC. Roedd hefyd yn bwysig nad oedd rhai camgymeriadau a wnaed mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol yn cael eu hailadrodd. h.y. ffensys yn rhwystro HTC, dargyfeirio HTC oddi ar eu llwybrau, dodrefn safonol gwael neu ddim dodrefn safonol (BS).

Dylai unrhyw brosiectau fferm yn y dyfodol ystyried eu heffeithiau ar HTC a thir mynediad a hefyd pa mor gydgysylltiedig y gall y rhain fod ag eiddo cyfagos i sicrhau eu bod yn gyson.

Roeddent hefyd wedi cydnabod bod materion hŷn heb eu datrys o ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus mewn sawl eiddo ac roeddent wedi gwneud y pwynt, er na ddylai hyn atal tiffeddianwyr rhag ymuno â chynlluniau, y dylid mynnu bod bob parti'n ymrwymo i'w datrys o fewn oes unrhyw gynllun.

Roedd AE yn cefnogi'r dull hwn ac roedd cael cysondeb rhwng tiffeddianwyr cyfagos yn bwynt pwysig nid yn unig i Hawliau Tramwy ond i gynlluniau.

12. Eitemau ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf

- i) Ymateb SS gan y PC i'r ymgynghoriad hwn.
- ii) Pont gylchol Traws.

13. Unrhyw Fater Arall

- i) Llythyr at Leslie Griffiths AC ynghylch Tir Saethu Traws (eitem papur 13i)**

Eglurodd PR ei fod wedi rhoi hwn i mewn er gwybodaeth, o ystyried bod rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud cais i'r Fforwm Mynediad Lleol bob 5 mlynedd am waharddiad mynediad i'r ardal honno. Roedd yn ymddangos yn ddisynnwyr pan oedd hyn er diogelwch y cyhoedd a lle na ellir datrys problemau.

Credai y dylid ailymweld â'r mater hwn. Fel y mae'r ddeddfwriaeth Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar hyn o bryd, mae pob tir mynediad yn parhau felly am byth, ac nid oes unrhyw fecanwaith i ganiatáu dileu lleiniau o dir yn barhaol hyd yn oed os ydynt yn berygl i'r cyhoedd.

Cytunodd yr Aelodau y dylem ailedrych ar hyn ac anfon llythyr â geiriad tebyg at y Gweinidog ar ôl i'r etholiadau ddod i ben.

ii) Monitro ymwelwyr – diweddariad gan PR ar ffigyrau 2023

Cyhoeddodd PR eu bod wedi cwblhau cyfrifiad ymwelwyr ar draws y PC yn ddiweddar. Er gwaethaf rhai problemau caledwedd, roedd y cyfrifwyr wedi llwyddo i gasglu rhai ystadegau diddorol.

Dangosodd sleidiau o'r ffigyrau i Gader Idris - dangoswyd fod Dôl Idris wedi cael oddeutu 57,000 o ymwelwyr, a Llwybr Merlod Tŷ Nant 18,000. Roedd yn ddiddorol oherwydd er iddynt gael codiadau bach dros y blynyddoedd diwethaf, nid oeddent yn amrywio'n sylweddol. Roedd hyn oherwydd bod y ddarpariaeth barcio ar gyfer pob ochr yn gyfyngedig, o'i gymharu â'r Wyddfa oedd â ffigwr o 580,000. Roedd hefyd yn bwysig nodi mai ffigyrau unffordd oedd y rhain, felly roedd nifer yr ymwelwyr yn ddwbl mewn gwirionedd.

Roedd y cymariaethau tymor hefyd yn wahanol ar wahanol lwybrau. Yn nodweddiadol, roedd Cader, Yr Wyddfa a dyffryn Ogwen yn fwy gwasgaredig ar draws y tymor (ac yn dibynnu ar fympwyon y tywydd). Mewn cymhariaeth, fe ddisgynnodd ffigyrau Mawddach yn gyflym iawn ar ddiwedd mis Awst, gan gynnwys ffigyrau ar gyfer beiciau.

Gofynnodd GD os oedd cyfrifwyr Mawddach wedi eu lleoli ar ddechrau'r llwybr. O'u hadborth fel darparwyr llety gwyliau, gwyddent fod y llwybr rhwng Dolgellau a'r Bermo yn boblogaidd iawn gyda'u cleientiaid.

Dywedodd PR fod y cyfrifwyr yn y lleoliadau prysuraf i alluogi'r cyfrif uchaf mewn lleoedd dwysedd uchel, megis giât Llyn Penmaen ac ym mhen draw maes parcio Morfa Mawddach.

Roedd Llwybr Cynwch gerllaw Llanfachreth – Dolgellau yn dangos tueddiad cyson – sef tua 29,000 y flwyddyn ar hyn o bryd, gyda chynnydd bychan yn flynyddol – o 25,000 yn 2014. Roedd hwn yn lleoliad eithaf anghysbell ac yn parhau i fod yn boblogaidd gyda phobl leol.

Roedd y 'don' ar ôl Covid hefyd wedi gwyro'r ffigurau bryd hynny. Roedd hyn yn dangos, er bod y nifer wedi cynyddu'n sylweddol, roedd wedi'i wasgu i 3 mis yn hytrach na 6-8 mis, a oedd yn creu llawer o broblemau ac yn profi bod ein capasiti cario sbâr yn isel iawn. Yn ychwanegol at hyn, roedd yr holl faterion eraill megis rhywfaint o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymosodol, gwersylla anghyfreithlon, parcio gwael, sbwriel a gwastraff, tanau a difrod i goed, seilwaith – biniau, manau parcio a blociau toiledau. Bu hwn yn gyfnod llawn straen i holl staff y PC.

Dywedodd PR fod yr arwyddion cynnar ar gyfer 2024 yn dangos tueddiadau ychydig yn is ond gallai hyn fod oherwydd tywydd gwaeth. Nid oedd yn ymwybodol o sut oedd unrhyw reolau llety yn effeithio ar eu hystadegau.

Yn ddiweddar, cynigiwyd cwpl o gyfrifwyr pobl o fath newydd gan CNC ac roeddent wedi cytuno i'w profi. Roedd y rhain trwy gysylltiadau ffôn.

Soniodd DPJ fod rhai awdurdodau yn defnyddio system LoRaWan i ddadansoddi ystadegau.

Eglurodd PR mai trefniant synhwyrdd digidol oedd hwn. Roeddent wedi buddsoddi swm sylweddol yn yr hyn oedd ganddynt – roeddent mewn systemau daear gyda chysylltiad Bluetooth. Roedd systemau newydd ar gael ond roedd y costau yn anhysbys a byddai angen meddalwedd a chaledwedd gwahanol ar draws y PC pe byddent yn ystyried eu newid.

iii) Eitem ychwanegol:

Cyhoeddodd PR fod CNC, sawl blwyddyn yn ôl, wedi gofyn i'r Parciau Cenedlaethol adolygu eu daliadau coedwigaeth gyda'r bwriad o neilltuo'r rheini fel 'tir mynediad' o dan Adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Er iddo ddod i'r Fforwm Mynediad Lleol yn y gorffennol - roedd wedi ailasesu hyn yn ddiweddar gyda'r bwriad o neilltuo 4 o goetiroedd y PC. Dangosodd fapiau o Brynbrethynnau (Capel Curig), Coed Hafod (Betws y Coed), Farchynys (Bont Ddu) ac Abergwynant (Dolgellau).

Mater i'r perchnogion tir yn unig oedd neilltuo coetiroedd, megis coedwigoedd - roedd y pedwar llecyn dan sylw yn eiddo rhydd-ddaliadol y PC. Byddai eu neilltuo yn lleihau atebolrwydd posibl y PC am goed, ffosydd cyrsiau dŵr a nodweddion naturiol eraill er na fyddai hyn yn lleddfu eu cyfrifoldebau am broblemau neu beryglon hysbys (o dan Atebolrwydd Deiliaid). Soniodd fod yr holl rydd-ddaliad coedwigaeth sy'n eiddo i'r wladwriaeth wedi'i neilltuo fel tir mynediad yn 2002 a'i fod bellach o fewn cylch gorchwyl CNC.

Roedd proses ffurfiol i hyn ac roedd hefyd yn destun pridiannau tir ond credai fod hyn yn werth chweil. Yn seiliedig ar farn yr aelodau, ei gam nesaf fyddai mynd â phapur i'r Tîm Rheoli – ac yna i'r Awdurdod. Yr oedd y neilltuo yn parhau am byth.

Gofynnodd i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw farn ar hyn.

Gofynnodd GLE beth oedd y manteision o gyflwyno'r coetiroedd fel tir mynediad.

Dywedodd PR y byddai'n gwarantu mynediad i'r cyhoedd ac ar yr un pryd yn lleihau rhwymedigaethau'r PC o ran nodweddion naturiol fel y disgrifiwyd yn flaenorol.

Gofynnodd HP os oedd coed wedi'u plannu, a oedd hyn yn llai o atebolrwydd gan ei fod yn nodwedd o waith dyn? Gallai hyn fod yn bwysicach yn y dyfodol pe bai tiffeddianwyr yn gorfod plannu mwy o goed o dan unrhyw gynllun o fewn unrhyw dir mynediad.

Dywedodd PR fod HP wedi codi pwynt diddorol. Pan fydd coed yn cael eu plannu mae'r ardal honno'n troi'n dir nad yw'n dir mynediad, a'i fod yn 'dir eithriedig' dros dro am 12 mis. Yn dilyn y cyfnod hwn mae'n dychwelyd yn ôl i fod yn dir mynediad llawn.

Mae'r broses neilltuo yn weithdrefn statudol ac fe'i nodir mewn rheoliadau sy'n pennu'r broses neilltuo (Adran 16 CRoW). Mae'n hirwyntog a rhaid cyflwyno ceisiadau i LIC ac mae'n cynnwys proses ymgynghori.

Gofynnodd i'r aelodau (trwy'r Cadeirydd) a oedd ganddynt unrhyw farn ar hyn ac a fyddent yn cefnogi'r prosiect hwn.

Gofynnodd HP am farn yr aelodau.

Cytunwyd fod yr aelodau'n cefnogi hyn.

Diolchodd PR i'r aelodau a byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

14. Amser a dyddiad y cyfarfod nesaf:

29^{ain} Hydref 2024 – lleoliad i'w hysbysu.

Diolchodd HP i bawb a oedd yn bresennol ac am eu cyfraniadau.